

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 4ydd Hydref, 2023 at 3.00 pm

YN

BRESENNOL:

CYNYRCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:

County Councillor Martyn Groucutt (Chair)
County Councillor Paul Pavia
County Councillor Louise Brown
County Councillor Angela Sandles

CYNYRCHIOLWYR FFYDD:

Sue Cave
Jonathan Greaves
Rebecca Morteo

CYNYRCHIOLWYR ATHRAWON:

Charlotte Rhodes
Suzanne Hamer

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Sharon Randall-Smith	Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Hayley Jones	Partner Cwricwlwm(SACs and RVE)
Geraint Edwards	Solicitor

APOLOGIES:

Suzanne Gooding, Ali Szwagrzak, Majdulein Saraireh and Chris Francis

1. Nodi cofnod y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin 2023

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir yn amodol ar yr ychwanegiad:

Aelodaeth a Recriwtio yn y Dyfodol: Awgrymwyd y gallai'r panel penodiadau fod yn debyg i banel penodi Llywodraethwyr yr ALI.

2. Aelodaeth CYS a Recriwtio yn y Dyfodol

Cyflwynodd y Pennaeth Cyflawniad a Gwasanaethau Estynedig adroddiad ar Aelodaeth CYS a Recriwtio yn y Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, i adlewyrchu'r sylwadau yn y cyfarfod diwethaf. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 4ydd Hydref, 2023 at 3.00 pm

- Ynghylch y tymor pedair blynedd ar gyfer y penodiadau. Eglurwyd y gall aelodau CYS presennol wasanaethu pedair blynedd o ddechrau'r CYS ond gallant ymddiswyddo ar unrhyw adeg. Bydd aelodau'r dyfodol yn dechrau am gyfnod o bedair blynedd ar ôl eu penodi. Pan ddaw'r tymor i ben, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ailbenodi gan y sefydliad a gynrychiolir.
- Awgrymwyd bod cynrychiolaeth yr Awdurdod Lleol ar y panel penodi yn drawsbleidiol ac y gallai'r aelodau etholedig presennol ar y CYS (ynghyd â'r seddi gwag) ffurfio'r panel, gan nad oedd y Cadeirydd a dau aelod yn ddigonol. Cwestiynodd Aelod yr angen i'r Cyngor llawn gadarnhau penodiadau gan nodi bod cynrychiolwyr ffydd a chred wedi'u penodi gan eu sefydliad priodol. Roedd yr Aelod o'r farn y byddai panel penodiadau Llywodraethwyr yr ALI yn fodel gwell. Eglurodd y cynrychiolydd cyfreithiol mai mater i'r CYS yw penderfynu ar fodel y panel penodi, gan dynnu sylw at y ffaith bod CYS yn rhan o strwythur pwyllgor yr awdurdod, pan nad yw panel penodi llywodraethwyr yr awdurdod lleol.
- Awgrymwyd y byddai pum mlynedd yn dymor swydd sy'n fwy priodol i aelodau CYS er mwyn alinio â thymor etholiadol cynghorwyr.
- Eglurodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol fod CYS yn pennu hyd cyfnod y swydd a chadarnhaodd fod yn rhaid i Gyngor Llawn gadarnhau penodiadau yn unol â'r Cyfansoddiad, gan nad oes awdurdod dirprwyedig. Byddai'r panel penodiadau CYS yn darparu mecanwaith i argymhell penodiadau i'r Cyngor. Mae cyfansoddiad y panel penodiadau yn fater i CYS benderfynu. Mae egwyddorion llywodraethu da yn awgrymu cynrychiolaeth drawsbleidiol ar y panel penodiadau.
- Gofynnodd yr Aelod fod aelodaeth CYS yn cael ei hegluro fel a ganlyn:

Cynrychiolwyr y Cyngor Sir (6)

Cynrychiolwyr Ffydd a Chred
Yr Eglwys yng Nghymru (1)
Eglwys Gatholig Rufeinig (1)
Cyngor Eglwysi Rhydd (4)
Bahá'í (1)
Mwslim (1)
Hindŵ (1)
Sikh (1)
Ffydd Iddewig (1)
Bwdhaeth (1)
Argyhoeddiad Athronyddol Anghrefyddol (1)

Cynrychiolwyr athrawon (7)

- Dywedodd Aelod fod cyfrifiad y Sir yn nodi bod 50% o'i phoblogaeth yn Gristnogol a dylai CYS adlewyrchu'r cymesuredd hwnnw. Mynegodd yr Aelod bryder y dylai ysgolion eglwysig gael eu cynrychioli heb gyfyngiad ac na ddylid eu seilio'n llwyr ar gymdeithasau proffesiynol athrawon.
- Awgrymodd yr Aelod fod gan ddarpar aelodau CYS gysylltiad Sir Fynwy i sicrhau cynrychiolaeth o'r gymuned leol.
- Cadarnhaodd y cynrychiolydd cyfreithiol nad yw'r adroddiad yn addasu aelodaeth y grŵp ffydd a chred sy'n parhau i fod yn 13 aelod fel yn y Cyfansoddiad. O ran cynrychiolaeth

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 4ydd Hydref, 2023 at 3.00 pm

athrawon, cadarnhawyd nad yw deddfwriaeth yn nodi cynrychiolaeth i'w hisrannu'n ysgolion ffydd amrywiol. Mater i'r panel penodiadau fyddai ystyried cysylltiad lleol â Sir Fynwy wrth ystyried ceisiadau.

- Dywedwyd bod cael cynrychiolaeth o ysgolion eglwysig yn agwedd y dylid ei hystyried. Eglurwyd bod enwebiadau'n cael eu cyflwyno gan gymdeithasau proffesiynol ac felly dylent ystyried cydbwysedd cynrychiolaeth ysgolion cymunedol ac eglwysig mewn ffordd deg a chydadd.
- Cyfeiriodd Aelod at y ddwy swydd wag ar gyfer cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol a holodd beth fyddai'n digwydd pe na bai enwebiadau'n cael eu derbyn gan y Grŵp Annibynnol. Gofynnodd yr Aelod hefyd pa amserlenni a ddisgwylir ar gyfer y broses recriwtio a phenodi. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at Arweinydd y Grŵp Annibynnol sydd wedi dweud y byddai'n cysylltu yn ôl ato.
- O ran y seddi gwag presennol ar CYS ar gyfer cynrychiolwyr awdurdodau lleol, cadarnhawyd, er nad oes angen cydbwysedd gwleidyddol yn llym, y byddai'n arfer da cael cyfansoddiad sy'n cynrychioli'r Cyngor yn gyffredinol. Arweinydd y Cyngor (mewn ymgynghoriad â Chadeirydd CYS) sy'n gyfrifol am lenwi'r ddwy sedd wag. Ychwanegwyd nad yw'r swyddi gwag yn effeithio ar recriwtio i'r grwpiau eraill, gan y byddai'r panel yn seiliedig ar bwy sydd ar gael ac y bydd mor gynrychioliadol o'r awdurdod lleol â phosibl.
- Eglurwyd bod enwebiadau i'r swyddi gwag sy'n cynrychioli athrawon wedi'u gohirio oherwydd bod cyfarfod y Grŵp Cyngori ar y Cyd wedi'i ganslo. Bydd y mater yn cael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod Grŵp Cyngori ar y Cyd nesaf. Bydd cynrychiolaeth arall yn mynd rhagddo unwaith y bydd y broses recriwtio yn cael ei chadarnhau.
- Awgrymodd Aelod y gallai fod pum cynrychiolydd awdurdod lleol ar y panel penodi, pedwar ohonynt yn gynrychiolwyr presennol yr ALI. O ran cydbwysedd gwleidyddol, rhoddwyd enghraifft y pwyllgor cynllunio lle mae pleidiau eraill wedi cymryd sedd wag lle nad yw'r Grŵp Annibynnol wedi darparu unrhyw enwebiadau. Nodwyd bod gan CC Buckler ddiddordeb mewn dod yn aelod o'r CYS. Nododd y cynrychiolydd cyfreithiol risg pe bai un o'r pump ar y panel penodi yn methu â mynychu, ni fyddai cworwm. Awgrymodd yr Aelod o leiaf 3 ac uchafswm o 5.

Ar y pwynt hwn, awgrymodd y Cadeirydd na ddylid diwygio'r adroddiad ond ei roi i'r bleidlais.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais yn y tri grŵp, cymeradwywyd yr adroddiad. Codwyd pwynt am brotocol pan fydd pleidlais gyfartal o fewn grŵp. Ceisir rhagor o wybodaeth.

3. Cadarnhau Adroddiad Blynyddol drafft 2022/23

Diolchwyd i'r GCA, Partner y CGM am gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol 2022/23.

Gofynnodd Aelod fod cyfansoddiad CYS yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r cyfansoddiad:

Cynrychiolwyr y Cyngor Sir (6)

Cynrychiolwyr Ffydd a Chred
Yr Eglwys yng Nghymru (1)
Eglwys Gatholig Rufeinig (1)
Cyngor Eglwysi Rhydd (4)
Bahá'í (1)

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 4ydd Hydref, 2023 at 3.00 pm

Mwslim (1)
Hindŵ (1)
Sikh (1)
Ffydd Iddewig (1)
Bwdhaeth (1)
Argyhoeddiad Athronyddol Anghrefyddol (1)

Cynrychiolwyr athrawon (7)

Gyda'r diwygiad, cadarnhawyd yr adroddiad.

4. Diweddariad Partner Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y GCA

Diweddarodd y GCA, Partner y CGM y CYS fel a ganlyn:

- Mae tair o ysgolion Sir Fynwy (Ysgol Y Ffin, Ysgol Gynradd Tryleg ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandeilo Bertholau) wedi cymryd rhan mewn cwrs dylunio Cwricwlwm CGM i gynllunio darpariaeth ar gyfer CGM. Bydd y cwrs yn cael ei ailadrodd yn ystod Tymor yr Haf.
- Cyfarfod CGM Dyniaethau Cynradd – 12^{fed} Hydref 2023
- Hyfforddiant pellach i gynllunio'r cwricwlwm gan Lat Blaylock, Cynghorydd Addysg Grefyddol Cenedlaethol ar 28^{ain}/29^{ain} Tachwedd 2023
- Mae sgysiau addoli ar y cyd tymhorol yn parhau – nesaf ar 18^{fed} Hydref 2023 – croeso i bob ysgol.
- Mae dogfen Google Forms wedi'i gohirio. Ni fu'n bosib rhannu hyn gydag ysgolion oherwydd y "Gweithredu'n Brin o Streic" ar hyn o bryd.
- Mae cwrs Athroniaeth i Blant am ddim ar-lein i bob athro yng Nghymru drwy www.sapere.org.uk. Mae cwrs Athroniaeth i Blant pellach yn cael ei gynnal ar gyfer Ysgolion Eglwys ar y testun "Rhinweddau" a fydd yn cael ei rannu gyda phob ysgol eglwys yn y dyfodol. Roedd gan Aelod brofiad o gwrs Athroniaeth i Blant ac roedd yn croesawu'n gryf ei argaeledd.
- Mae'r GCA, Partner y CGM, wedi ymweld ag Ysgol Gyfun Cas-gwent a bydd yn ymweld ag Ysgol Gynradd Tryleg. Mae yna bryderon nad oes gan rai ysgolion uwchradd unrhyw arbenigwyr CGM sy'n golygu bod diffyg darpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 4. Dylai CYS ystyried sut y gellir cefnogi'r ysgolion cyfun yn y sefyllfa hon.

5. Busnes CCYSAGauC

Nodwyd eitemau busnes CYSAGauC.

Bydd y cofnodion drafft o gyfarfod yr haf yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau.

Bydd y gwahoddiad i Gyfarfod yr Hydref yn cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau. Bydd yn cael ei gynnal dros Zoom ddydd Mercher 25^{ain} Hydref 2023, rhwng 10.30am ac 1pm. Mae gan bedwar aelod o CYS hawl i fod yn bresennol. Nododd y Cynghorydd Sirol L. Brown ei dymuniad i fod yn bresennol.

6. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw fater arall.

7. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mercher, 4ydd Hydref, 2023 at 3.00 pm**

Newidiwyd dyddiad y cyfarfod nesaf o'r 6^{ed} Rhagfyr i ddydd Mawrth 12^{fed} Rhagfyr 2023 am 3pm
oherwydd ei agosrwydd at gyfarfod nesaf y Cyngor.

Y cyfarfod diwedd yn 4.10 pm